CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENRHYNCOCH AC YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENLLWYN

4.00 – 5.00 pm, 14 Mawrth 2022

Yn bresennol Trwy Teams:	Robert Mills (Cadeirydd), Cyng Rhodri Davies, Cyng Sarah Hughes, Cyng Dai Mason, Bethan Evans, Catrin Evans, Ceris Gruffudd, Catherine Jones, Sian Lloyd Donnelly, Bryn Shepherd, Efan Williams (Pennaeth Dros Dro)
	Wendy Jones (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Cyng Shan James, Rhodri Gibson a Tom Holt **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau.		
2	**DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau:		
	a)	o'r angen i ddatgan eu buddiant mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu dan drafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod;	
	b)	y byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c)	bod yr eitemau a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
		PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
3i	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2021, a byddent yn cael eu llofnodi yn ddiweddarach oherwydd cyfyngiadau Covid-19.		
3ii	**MATERION SY'N CODI O'R COFNODION:**		
	a)	**Cofnod 2v(a) – Arwydd Ysgol Penllwyn:** Dywedodd y Cynghorydd Sarah Hughes wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos a gofynnodd am fanylion dyluniad a maint yr arwydd	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		arfaethedig. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai'r ysgol yn trefnu i'r disgyblion gymryd rhan mewn cystadleuaeth i greu'r dyluniad, i'w beirniadu gan aelodau'r Cyngor Cymuned. Byddai'r Cyng Rhodri Davies yn cysylltu ag Adran Briffyrdd yr Awdurdod Lleol unwaith y byddai'r dyluniad wedi'i gwblhau.	
	b)	**Cofnod 2ix – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i Rieni 2020-2021:** Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau maes o law.	RM
4	**COFNODION PWYLLGORAU:**		
	Ni chynhaliwyd cyfarfodydd Pwyllgorau.		
5	**CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGI LLYWODRAETHWYR:**		
	Roedd copïau o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu wedi'u dosbarthu i'r Aelodau o'r blaen. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**		
		Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 am gost o £1,084.48. Peidio â phrynu'r gwasanaeth cyfieithu.	
		Bod y dyddiadau canlynol wedi'u pennu ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn 2022/2023: Tymor yr Haf: 6 Mehefin 2022 Tymor yr Hydref: 1 Rhagfyr 2022 Tymor y Gwanwyn: 7 Chwefror 2022	
6	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Trefnwyd bod copi o adroddiad y Pennaeth wedi bod ar gael i'r Aelodau o'r blaen. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol:		
	a)	**Adroddiad Hunanwerthuso:** Mae'r ysgol wedi bod yn rhedeg rhaglen sicrhau ansawdd wedi'i haddasu a'i lleihau o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Roedd monitro wedi parhau ac roedd craffu ar lyfrau wedi digwydd. Cynhaliwyd trafodaethau mewn cyfarfodydd staff ar sut y gall athrawon wella unrhyw elfennau sydd angen eu datblygu neu eu gwella. Roedd safon gwaith disgyblion wedi gwella ers iddynt ddychwelyd i addysg wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb a bydd Prynhawn Agored yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos er mwyn i rieni gael y cyfle i weld	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		enghreifftiau o waith disgyblion, trafod cynnydd gyda'r Athrawon ac i fwynhau rhai perfformiadau ac arddangosfeydd a baratowyd gan ddisgyblion a staff. Nid yw'n statudol sôn am ddata disgyblion oherwydd y pandemig ond mae'r holl ddata'n cael ei gofnodi ar y rhaglen Incerts gyda lefelau sylfaenol a lefelau real ar gyfer pob disgybl. Mae paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer profion Statudol Cenedlaethol mewn Rhifedd a Llythrennedd a gynhelir ym mis Mehefin ar gyfer Blynyddoedd 2-6.	
	b)	**Data Pennu Targedau:** Cofnodir gwaith monitro lefelau academaidd disgyblion trwy'r Rhaglen Incerts a'r Ganolfan Athrawon a chaiff presenoldeb ei fonitro trwy'r dulliau arferol gan yr Awdurdod Lleol. Mae presenoldeb yn cael ei fonitro bob tymor a'i drafod gyda Swyddog Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.	
	c)	**Cynllun Datblygu'r Ysgol:** Roedd yr adroddiadau yn dilyn Gweithdy 1 wedi'u rhannu drwy Teams. Swyddog Cymorth Ysgolion y ddwy Ysgol oedd Dafydd Iolo Davies ac roedd ei ymweliad wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau a bennwyd yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol a'r cynnydd a wnaed. Y prif darged oedd codi safonau llafar yn y Gymraeg a hefyd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Byddai Mared Llwyd, Athrawes Cymorth y Gymraeg, yn mynychu'r ddwy ysgol am ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos o'r wythnos nesaf ymlaen. Y gobaith oedd y gallai'r trefniant hwn barhau yn dilyn gwyliau'r Pasg. Roedd Addysgu Tîm wedi ailddechrau ar draws safleoedd y ddwy ysgol gyda Bethan Evans yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Penllwyn a Bryn Shepherd yn dysgu Mathemateg ac Addysg Gorfforol yn Ysgol Penrhyncoch bob dydd Mercher. Roedd y trefniant hwn yn gweithio'n dda ac yn fuddiol iawn i'r disgyblion. Y gobaith oedd datblygu'r rhaglen ymhellach yn y dyfodol. Roedd Bethan Evans a Bryn Shepherd yn rhan o rwydwaith o Athrawon sy'n cyfarfod i drafod a rhannu syniadau gyda staff eraill yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r Cwricwlwm Newydd. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn sefydlwyd gweithgor o'r enw Pen-nôd ar gyfer Athrawon a Llywodraethwyr y ddwy ysgol i ddatblygu meysydd o'r cwricwlwm. Roedd Tomos i Siop Inc, Ceris Gruffudd a chwe disgybl wedi cyfarfod Bethan Evans ac roedd y disgyblion wedi dylunio eu logo eu hunain. Byddai Tomos yn ymweld â Phen-llwyn ar gyfer gweithdy yn y dyfodol agos.	
	d)	**Data Disgyblion:** Nifer ar y gofrestr (Gwanwyn 2022): Ysgol Penrhyncoch - 93 Ysgol Penllwyn - 38	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
	e)	**Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Penrhyn-coch Gweithredu gan yr Ysgol - 8 Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy - 7 Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Cytundeb Adnoddau - 2 Prydau Ysgol am Ddim – 11 Ysgol Penllwyn: Gweithredu gan yr Ysgol - 1 Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy - 3 Prydau Ysgol am Ddim – 2 Roedd adroddiad llawn ar y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Roedd y Pennaeth wedi ymgymryd â rôl Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd cynorthwyydd addysgu yn Ysgol Penrhyncoch yn darparu grwpiau ymyrraeth ar draws yr ysgol. Roedd cynorthwyydd addysgu newydd ei benodi hefyd yn dilyn hyfforddiant ac yn darparu ymyrraeth yn Ysgol Pen-llwyn. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd Aml-asiantaeth i drafod anghenion disgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol.	
	f)	**Staffio:** Amlinellwyd y strwythur staffio ar hyn o bryd yn yr adroddiad. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Roedd Sarah Bennett Cynorthwyydd Addysgu wedi gadael Ysgol Penrhyncoch ac roedd Gwen Powell wedi'i phenodi; • Penodwyd Carys Daniel yn Gynorthwyydd Addysgu yng NghA2 yn Ysgol Penllwyn; • Roedd Demelza Fish-Jenkins wedi lleihau ei horiau dros dro oherwydd ymrwymiadau personol. Roedd Lynwen Herbert Morgan wedi'i phenodi i gyflenwi ond roedd angen y gwiriadau angenrheidiol o safbwynt Adnoddau Dynol; • Byddai Rhian Cory yn dychwelyd ym mis Mai am bedwar diwrnod yr wythnos tan fis Gorffennaf. Byddai'n gwneud rhai diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad cyn dychwelyd.	
	g)	**Dysgu Proffesiynol:** Roedd y staff wedi dilyn nifer o gyrsiau a restrir yn yr adroddiad. Roedd Efan Williams wedi cwblhau'r cwrs Rheolaeth Ganol. Roedd Bryn Shepherd wedi cychwyn ar y cwrs Rheolaeth Ganol.	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
	h)	**Rheoli Perfformiad:** Roedd Rheoli Perfformiad y Pennaeth wedi digwydd gyda Dr Gareth Hoskins a Dafydd Iolo Davies, Swyddog Cymorth Ysgolion. Roedd 80% o Reoli Perfformiad y staff Addysgu wedi'i gwblhau. Diolchodd y Pennaeth i Bethan Evans am gwblhau Rheoli Perfformiad y staff nad ydynt yn addysgu.	
	i)	**Cyllid:** Cafodd y ffurflen monitro ariannol ar gyfer y ddwy ysgol ei chynnwys yn yr adroddiad a'i rhannu ar Teams. Roedd gwarged iechyd yn y ddwy ysgol. Roedd arbedion wedi'u gwneud oherwydd y pandemig Roedd Catryn Lawrence wedi gweithio rhai diwrnodau 'cadw mewn cysylltiad' ac wedi goruchwylio'r cyllid. **Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad am yr incwm o £26,000 a nodwyd mewn e-bost diweddar gan Catryn Lawrence.** Byddai'r Pennaeth yn cysylltu â Catryn i ofyn am eglurhad am y cyllid ychwanegol. **Ysgol Penrhyn-coch** Gwarged a ragwelir ar ddiwedd 2021-22 - £88,568 Gwarged a ragwelir ar ddiwedd 2022-2023 - £61,243 **Ysgol Penllwyn** Gwarged a ragwelir ar ddiwedd 2021-22 - £64,089 Gwarged a ragwelir ar ddiwedd 2022-23 - £32,637	EW
	j)	**Diogelu:** Nifer yr achosion o fwlio – 0	
	k)	**Cynnal a Chadw Adeiladau/ Iechyd a Diogelwch:** Byddai'r Asesiad Risg yn cael ei adolygu a'i rannu trwy Teams maes o law. Bu nifer uchel o achosion mewn rhai dosbarthiadau ond nid oedd dim problemau staffio ar hyn o bryd.	
	l)	**Cyfranogiad rhanddeiliaid/Ymgysylltu â'r gymuned:** Rhannodd Bethan Evans gyflwyniad powerpoint yn amlinellu'r gweithgareddau roedd y disgyblion wedi cymryd rhan ynddynt yn ddiweddar. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Iechyd a Lles – Cynhaliwyd wythnos iechyd meddwl a chymerodd pob disgybl ran mewn gweithgareddau bob dydd. Rhannodd yr ysgolion flodau pot i bob aelod o'r teulu mewn ysgolion; • Gwyliodd y disgyblion ddrama ar-lein ac yna cymerasant ran mewn	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		trafodaeth ar fwlio; • Y Celfyddydau Mynegiannol – Cynhaliodd Ysgol Penllwyn berfformiad Nadolig byw a fu'n llwyddiant ysgubol. Yn anffodus nid oedd Penrhyncoch yn gallu perfformio'n fyw oherwydd Covid-19 ond cafodd eu perfformiad ei ffilmio a'i rannu gyda rhieni; • Bu disgyblion o Benrhyncoch hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Nadolig yn yr Eglwys leol; • Cymerodd y disgyblion ran yn *Nydd Miwsig Cymru*; • Roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi cymryd rhan mewn gwers serameg ar-lein gyda Laura o Ganolfan y Celfyddydau. Roeddent wedi cynhyrchu mygiau a fydd yn mynd i Ganolfan y Celfyddydau i gael eu tanio yn yr odyn; • Bydd Laura yn arwain prosiect arall ar yr Ail Ryfel Byd gyda disgyblion CA2 yn y dyfodol agos; • Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi a phen-blwydd yr Urdd yn 100 oed yn y ddwy Ysgol; • Roedd disgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithdy Podlediad a oedd yn llwyddiant ysgubol ac a rannwyd ledled Ceredigion. Ariannwyd y gweithdy drwy'r Siarter Iaith; • Roedd disgyblion wedi cael grant o £300 i'w wario ar gemau Cymraeg i'w chwarae ar ddiwrnodau gwlyb. Roedd clogynnau archarwyr wedi'u prynu. Byddai'r rhain yn cael eu rhoi i ddisgyblion oedd wedi dangos sgiliau llafar Cymraeg da, i'w gwisgo amser chwarae fel rhan o raglen *Seren a Sbarc*; • Gwyddoniaeth a thechnoleg – mae CA2 wedi ymweld â'r Coed yng Ngogerddan; • Diwrnod Diogelwch y Rhyngrwyd – roedd disgyblion wedi rhannu llun ar-lein i weld pa mor bell y byddai'n mynd o amgylch y byd; • Cogurdd – roedd 12 disgybl wedi cymryd rhan. Roedd Kayden wedi ennill a byddai'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf; • Y Dyniaethau – Dathlodd y disgyblion 100fed flwyddyn yr Urdd. Roeddent wedi cyfweld Wyn Melville Jones oedd wedi dylunio a datblygu Mr Urdd; • Roedd Cyngor yr Ysgol wedi cynnal arwerthiant llyfrau a rhoddwyd y £44 a godwyd i Wcráin. Byddai disgyblion yn gwisgo melyn a glas yn ystod yr wythnos ac yn rhoi'r hyn a allent i Unicef i gefnogi Wcráin; • Bydd blynyddoedd 3 a 4 o'r ddwy ysgol yn mynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog; • Cafwyd y rhoddion canlynol a hoffai'r Aelodau ddiolch i bawb am eu cyfraniadau: Cronfa Eleri - £1500 i Ysgol Penrhyn-coch a £3000 i Ysgol Pen-	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		llwyn. Cyngor Trefeurig - £500 Cyngor Melindwr - £300 Teulu Jenkins, Tŷ Mawr (Nisa) £1,000 Clwb Pêl-droed Penrhyncoch - £80 a ddefnyddiwyd i brynu offer Addysg Gorfforol. Bydd Ysgol Pen-llwyn yn prynu lloches y tu allan. Bydd Penrhyn-coch hefyd yn prynu lloches y tu allan i gymryd lle'r un ar hyn o bryd. Bydd hanner y gwair yn ardal tu allan y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Penllwyn yn cael ei waredu er mwyn darparu man sych ar gyfer y gegin fwd a thu allan. • Mae Incerts yr offeryn asesu tracio wedi datblygu i Taith 360 a byddai Bethan Evans a Bryn Shepherd yn treialu system newydd o fewn eu hystafell ddosbarth. Diolchodd y Pennaeth i Bethan Evans a'r holl staff am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod ei secondiad. Llongyfarchodd y Cynghorydd Dai Mason y Pennaeth a'r staff ar eu holl waith caled mewn amgylchiadau mor anodd. **Gofynnodd y Cynghorydd Sarah Hughes a oedd modd i'r disgyblion gymryd rhan mewn cynllun sticeri *Seren a Sbarc* sydd ar gael o fewn rhai siopau lleol.** Dywedodd Bethan Evans wrth yr Aelodau fod yr Ysgol wedi cymryd rhan yn nhreial y cynllun pan gafodd ei lansio gyntaf. Byddai'n ymchwilio ymhellach iddo er mwyn ei ailgyflwyno. Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth a'r staff am eu gwaith caled parhaus.	BE
6ii	**CYFRIF ARIANNOL PREIFAT YR YSGOL:**		
	Byddai'r Pennaeth yn sôn am Gyfrif Ariannol Preifat yr Ysgol yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu llawn.		Pennaeth
7	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	Dywedodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr fod yr holl Aelodau wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.		
8i	**POLISÏAU - DOGFENNAU STATUDOL:**		
	PENDERFYNWYD nodi bod y Dogfennau Statudol canlynol wedi'u hadolygu, wedi'u mabwysiadu gan yr Aelodau ac wedi'u llofnodi gan y Cadeirydd:		

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
	Dogfennau Statudol: Cofrestr o Fuddiannau Busnes – atgoffwyd yr Aelodau i lenwi'r ffurflen sydd ar gael ar Teams. Cynllun Datblygu'r Ysgol Adroddiad Hunanwerthuso'r Ysgol Lwfansau Llywodraethwyr: **PENDERFYNWYD** nodi na fyddai dim taliadau'n cael eu gwneud i'r Aelodau ar gais		
8ii	**YMGYNGHORIAD-POLISI DERBYN 2023-2024:**		
	PENDERFYNWYD nodi y trefnwyd bod yr ymgynghoriad wedi bod ar gael i'r Aelodau o'r blaen.		
8iii	**POLISI URDDAS YN Y GWEITHLE I YSGOLION:**		
	Trefnwyd bod copi o'r Polisi wedi bod ar gael i'r Aelodau o'r blaen. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi.		
8iv	**POLISI RHEOLI ABSENOLDEB SALWCH YN Y GWEITHLE**:		
	Trefnwyd bod copi o'r Polisi wedi bod ar gael i'r Aelodau o'r blaen. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi.		
9	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**		
	a)	**Absenoldeb mamolaeth:** Cafwyd gohebiaeth oddi wrth Rhian Cory yn gofyn iddi ddychwelyd am bedwar diwrnod yr wythnos yn y lle cyntaf. Caniatawyd y cais hwn. Byddai Rhian yn mynychu'r ysgol am ddiwrnodau 'cadw mewn cysylltiad' cyn iddi ddychwelyd.	
10	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn ar 6 Mehefin 2022.		

WJ
09/02/2022